**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Hydref 2010**

## ASESIAD CORFFORAETHOL RHAGARWEINIOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I gyflwyno'r Asesiad Corfforaethol cyntaf i Aelodau cyn iddo gael ei gyhoeddi.

## Cefndir

2 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae nawr yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Gwneir hyn ar ffurf Asesiad Corfforaethol sy'n edrych ymlaen, ac Asesiad Perfformiad sy'n edrych am yn ôl ar gyfer pob Awdurdod Tân ac Achub.

## Gwybodaeth

3 Mae hon yn flwyddyn drosiannol felly mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud Asesiad Corfforaethol rhagarweiniol. Mae'r adroddiad (atodiad A) yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol ac mae wedi'i lunio i ateb y cwestiwn: 'A yw trefniadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'.

4 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella, fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol lle'r argymhellir fod yr Awdurdod yn gweithredu.

5 ‘Dylai’r Awdurdod ystyried y canlynol:

- mynd i’r afael â’r ffaith bod y Panel Gweithredol a’r Pwyllgor Archwilio o bosibl yn dyblygu rolau wrth fonitro gwybodaeth am berfformiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch neu ddyblygu diangen.
- sicrhau bod yr ystod gyfredol o feddalwedd cyflwyno adroddiadau yn hwyluso proses gwneud penderfyniadau gadarn yn y tymor canolig i’r hirdymor.
- adolygu pa brosesau busnes a fydd yn cefnogi orau y gwaith o ddarparu prosiectau arfaethedig yn llwyddiannus.
- ffurfio cynllun tymor canolig i sicrhau cytundeb ar gyfeiriad polisi eang a’r adnoddau sy’n ofynnol i’w gyflawni.’

6 Bydd yr awgrymiadau hyn ynghyd ag ymateb yr Awdurdod Tân yn cael eu cynnwys yn yr ail elfen o’r broses, sef yr Asesiad Gwella a gyhoeddir cyn ddiwedd Tachwedd.

**Argymhelliad**

7 Fod Aelodau’n nodi:
(i) cynnwys yr asesiad corfforaethol rhagarweiniol; a
(ii) fod y ddogfen yn cael ei chyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o’r Adroddiad Gwella Blynyddol yn niwedd Tachwedd 2010.